# Cofnodion

**Is-grŵp Llygredd Amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru**
**(Cadeirydd: Zoe Henderson)**

**Dydd Mercher 13 Tachwedd**
Adeilad yr NFU
Maes Sioe Frenhinol Cymru
Llanfair-ym-Muallt
Powys

## 1) Croeso ac Ymddiheuriadau *(Cadeirydd)*

1a Daeth ymddiheuriadau i law gan:
Kate Snow, United Utilities
Lorna Davis, NFU
Bob Vaughan, CNC
Sarah Hetherington, CNC
Michelle Van-Velzen, CNC

1b Cyflwyniadau
Presenoldeb wedi'i gadarnhau:
Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)
James Dowling, LlC
James Ruggeri, HCC
Denis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant
Nichola Salter, CNC
Sara Jenkins, Menter Busnes
Lee Price, Menter Busnes
Danielle Hitt, Dŵr Cymru
David Jones, Dŵr Cymru
Sophie Straiton, Dŵr Cymru
Rachel Lewis-Davies, NFU
Aled Jones, UAC
Creighton Harvey
Marc Williams, CNC
Andrew Chambers, LlC
Spencer Conlon, LlC

Matt Lowe, CNC
Sophie Straiton, Dŵr Cymru
Marc Williams, CNC
Geri Mills, CNC

1c Datganiad o Fuddiant
Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas ag Eitemau ar yr Agenda.

## 2) Cofnodion y cyfarfod ar 23 Hydref, a phwyntiau gweithredu heb eu cymryd

Adolygodd y Cadeirydd y cofnodion drafft er mwyn sicrhau cywirdeb, a chytunodd y Grŵp i gynnwys y canlynol:

Rôl y Contractwr Amaethyddol

1. *Nid oedd llawer o ffermwyr yn profi eu slyri, ac roeddent yn ei ddefnyddio fel cynnyrch gwastraff.*
2. *Roedd rhai ffermwyr yn gwasgaru slyri yn y cyfnod yn union cyn glaw trwm, gyda'r bwriad iddo gael ei olchi i ffwrdd. I ategu hyn, disgrifiodd y contractwr amaethyddol achos o wrthod contract i wasgaru gan y rhagwelid glaw trwm, ac yna aeth contractwr arall ati i wneud y gwaith. Archwiliodd y contractwr amaethyddol nant gyfagos ar ôl i'r slyri gael ei wasgaru, a gwelodd ei bod wedi cael ei halogi'n drwm â'r slyri.*
3. *Nid oedd rhai ffermwyr yn barod i addasu i hinsawdd sy'n newid.*
4. *Roedd slyri'n cael ei wasgaru dro ar ôl tro ar rai caeau. Byddai'r contractwyr yn dweud eu bod yn gwasgaru ar sail fferm gyfan pan oeddent yn gwasgaru ar un cae. Y rheswm dros hyn oedd diffyg lle storio digonol neu brinder tir i wasgaru arno.*
5. *Roeddent o'r farn bod rheoleiddio'n ofynnol i sicrhau chwarae teg i'r holl ffermwyr a chontractwyr.*

Y Contractwr Ystyriol

1. *Dywedodd Jill Hewitt na ddylai contractwyr fod dan bwysau i wasgaru mewn amodau amhriodol.*
2. *Gofynnwyd i'r contractwr amaethyddol a oedd ganddynt unrhyw sylw i'w wneud ar gyflwyniad Jill Hewitt. Dywedodd y contractwr amaethyddol na ddylai unrhyw gynllun fod yn wirfoddol ond yn hytrach yn orfodol. Dylai fod yna nodyn ar gael i ddynodi bod sleidiau Jill Hewitt wedi cael eu cyflenwi i aelodau'r is-grŵp oddi ar hynny.*

Trosolwg o Wasanaethau Cynghori Cyswllt Ffermio

*Rhoddodd gyngor ymarferol ar sut i leihau'r cyfaint, rhywbeth a fyddai, mewn sawl achos, yn osgoi'r angen am fwy o le storio. Dywedodd mai dim ond un o gant o arolygiadau yn y cyfnod o ychydig dros flwyddyn a oedd yn cydymffurfio â'r rheoliadau ynghylch Storio Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol (SSAFO). Dywedodd hefyd fod diffyg profiad ymhlith swyddogion llaeth wedi arwain at naïfrwydd wrth archwilio ffermydd. Nid oedd yn bwriadu i hynny fod yn feirniadaeth ar swyddogion llaeth da eu bwriad, ond yn hytrach yn ddatganiad o'r sefyllfa ar y pryd, a fyddai'n gwella gydag amser.*

*Dywedodd mai ei rôl oedd rhoi ffermwyr yng ngofal eu slyri, ac atal slyri rhag llywodraethu ar y ffermwr.*

## 3) Cynllun Cyfathrebu'r Is-grŵp

Arweiniodd Meinir Wigley, CNC, weithdy i adolygu'r cynllun Cyfathrebu, a hynny'n seiliedig ar adborth a ddaeth i law trwy negeseuon e-bost gan aelodau'r grŵp. Roedd cynllun drafft i gael

ei gyflwyno'n ôl i'r grŵp mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Cadarnhaodd Meinir Wigley fod CNC ar y pryd yn recriwtio sawl Swyddog Cyfathrebu, ac y byddai un ohonynt yn gweithio gydag Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yn y dyfodol.

***Pwynt Gweithredu: PG Tach 01 Yr Ysgrifenyddiaeth i gysylltu â Meinir Wigley er mwyn rhoi cyflwyniad i'r Grŵp mewn cyfarfod yn y dyfodol.***

## 4) Contractwr Amaethyddol – gwaith dilynol o'r cyflwyniad a'r drafodaeth yng nghyfarfod mis Hydref

Myfyriodd y grŵp ar y cyflwyniadau a roddwyd yng nghyfarfod mis Hydref gan y contractwr Amaethyddol a Chymdeithas Genedlaethol y Contractwyr Amaethyddol (NAAC), gan nodi'r pwyntiau canlynol:

- yr angen i hyrwyddo rheolaeth ar faethynnau
- bod NAAC yn parhau i gyfeirio at slyri yn nhermau rheoli gwastraff yn hytrach nag fel maethyn posibl
- yr angen i hyrwyddo atebolrwydd ar y cyd y contractwr amaethyddol a'r ffermwr pan fo slyri'n achosi digwyddiad llygredd (bai a rennir)
- yr angen i NAAC fod yn fwy gweithredol yng Nghymru neu i Gymru gefnogi cynllun tebyg
- yr angen i annog contractwyr i ddefnyddio adnoddau CNC pan fo angen iddynt gael cyngor ar wasgaru slyri

***Pwynt Gweithredu: PG Tach 02 Andrew Chambers i gysylltu â Chontractwyr Amaethyddol ynghylch anhysbysrwydd yng nghofnodion mis Hydref.***

## 6) Data'r Prosiect Dyddiadur

Esboniodd Matt Lowe fod y Cadeirydd wedi gofyn i'r Grŵp edrych ar gyflwyniad byr a roddwyd gan Matt yn flaenorol i dîm Arweinyddiaeth CNC. Roedd y cyflwyniad yn rhoi diweddariad ar y Prosiect Dyddiadur, ac yn manylu ar y materion a ganfuwyd yn ystod ymweliadau fferm a'r gwaith adweithiol a rhagweithiol a wnaed yn dilyn pob ymweliad.

Wrth adolygu'r gwaith o gyflawni'r Prosiect Dyddiadur, cadarnhaodd Matt Lowe fod y prosiect wedi cael trafferth sicrhau adnoddau oherwydd contractau dros dro, byrdymor. Roedd y Rheoliadau Dŵr newydd arfaethedig, a oedd i ddod yn weithredol ym mis Ionawr 2020, hefyd yn heriol o ran y cyngor yr oedd y swyddogion llaeth yn gallu ei roi i ffermwyr. Roedd y Prosiect wedi ymweld â thua 500 o ffermydd hyd hynny, gyda 296 o ddarnau o ddata wedi'u mewnbynnu i'r gronfa ddata. Blaenoriaethwyd yr ymweliadau fferm yn ôl dalgylch. Gofynnwyd i'r Grŵp nodi bod y data'n seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd gan ffermwyr, yn enwedig o ran dyfnder pyllau slyri.

Gofynnodd Marc Williams i'r grŵp nodi bod yr holl adeiladweithiau a oedd yn weithredol cyn 1991 yn cael eu heithrio o dan reoliadau cyfredol SSAFO. Dim ond os ystyrir eu bod yn risg llygredd y bydd yr adeiladweithiau hyn yn disgyn y tu allan i reoliadau SAFO.

Esboniodd Matt Lowe fod disgwyl i bob adeiladwaith fferm fod yn weithredol am 20 mlynedd, o gael gwiriadau cynnal a chadw.

Nododd y Cadeirydd fod y swyddogion a oedd yn ymweld â ffermydd llaeth yn dîm hyfforddedig pwysig a oedd yn arwain y broses gyfathrebu â ffermwyr. Roedd trafodaeth frys yn ofynnol i ystyried ymestyn y cyllid ar gyfer y rolau hyn. Trafododd y Grŵp y cyfleoedd cyllido ar gyfer y prosiect. Cadarnhaodd Nichola Salter ei bod, ar y pryd, yn mewnbynnu i gynllun Gwasanaeth Rheoleiddio CNC, a fyddai'n cael ei gyflwyno i uwch-aelodau CNC; byddai hwn yn manylu ar yr ystyriaethau cyllido. Esboniodd Nichola Salter fod gan CNC sawl swyddog amaethyddol gweithredol ledled Cymru, yn enwedig yng Ngogledd Cymru. Fodd bynnag, oherwydd Cynllun y Sefydliad, roedd yr adnodd hwn yn gyfyngedig. Ar y pryd, roedd CNC yn gweithio ar gynllun hyfforddi ar gyfer aelodau staff a oedd yn delio ag amaethyddiaeth ac yn chwilio am ddarparwyr hyfforddiant.

Daeth y Cadeirydd i'r casgliad bod y Grŵp yn llwyr gefnogi'r angen i geisio am gyllid ychwanegol ar gyfer y Swyddogion Ffermydd Llaeth, a rhoddodd groeso i Nichola Salter ddarparu gwybodaeth bellach ar hyfforddiant i staff CNC sy'n delio ag Amaethyddiaeth, a hynny mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 7) Ystadegau ar lygredd amaethyddol

Rhoddodd Marc Williams, CNC, gyflwyniad a oedd yn manylu ar yr wybodaeth am y digwyddiadau yr adroddwyd yn eu cylch. Cadarnhaodd Marc fod y broses o recriwtio unigolyn technegol i gefnogi Fforwm Rheoli Tir Cymru yn parhau; byddai'r unigolyn hwn wedyn yn gyfrifol am ddiweddaru'r ystadegau llygredd.

Cadarnhaodd Marc Williams fod y data a gyflwynwyd yn cynnwys gwybodaeth hyd at ddydd Llun 11 Tachwedd, a oedd yn manylu ar 58 o ddigwyddiadau a gymerwyd o Gronfa Ddata WIRS CNC. Cymharodd y grŵp y data o flynyddoedd blaenorol, gan nodi'r gostyngiad mewn digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt o 2018 hyd hynny. Esboniodd Marc Williams y byddai dadansoddiad pellach o'r data yn cael ei wneud pan fyddai adnoddau a chyfranogiad ystadegydd yn caniatáu hynny.

***PG Tach 03 Marc Williams i rannu'r cyflwyniad â'r Grŵp.***

## 8) Trefniadau ar gyfer cyfarfodydd yr is-grŵp yn y dyfodol

Nododd y Grŵp y dyddiadau a'r lleoliadau ar gyfer y cyfarfodydd nesaf.

- 16 Rhagfyr 2019 (Swyddfeydd LlC, Merthyr. Yn cael ei ddilyn gan ymweliad safle â Gwaith Trin Dŵr Llwynon)
- Dydd Llun 20 Ionawr 2020, Swyddfeydd LlC, Aberystwyth

## 9) Diweddariad ar weithgarwch perthnasol yn y dyddiadur

Nodwyd y gweithgareddau canlynol yn y dyddiadur:

Y Cadeirydd i siarad mewn digwyddiad Menywod ym Myd Ffermio, Grŵp Gogledd Cymru yn

gynnar yn 2020.

Cynhadledd Flynyddol Hybu Cig Cymru ddydd Iau 14 Tachwedd ar Faes Sioe Frenhinol Cymru.

Byddai Dŵr Cymru yn siarad am y Daith i Catskills yn y Gynhadledd Ansawdd Dŵr Yfed yn Birmingham ar 27 Tachwedd.

Byddai Matt Lowe a Nichola Salter yn siarad ag Aseswyr y Cynllun Gwarant Fferm Da Byw (FAWL) ddechrau mis Rhagfyr.

Cadarnhaodd Creighton Harvey y byddai Tony Loizou yn siarad yng nghynhadledd staff yr NFU yng Ngwesty Lion Quays, Croesoswallt ddydd Gwener 15 Tachwedd 2019.

Cadarnhaodd CNC a Menter Busnes/Cyswllt Ffermio y byddent yn bresennol yn Ffair Aeaf Frenhinol Cymru ddydd Llun 25 a dydd Mawrth 26 Tachwedd.

Cadarnhaodd Denis Matheson ei fod wedi bod i gyfarfod o'r Fforwm Dŵr yn y Fenni, a oedd wedi canolbwyntio'n bennaf ar lygredd o fwyngloddiau. Gofynnodd Denis am eglurhad ar y ffigurau a ryddhawyd gan CNC fod defaid yn yfed pum galwyn o ddŵr y dydd. Cadarnhaodd Marc Williams fod ffigurau ar gael ar gyfer y dŵr y mae anifeiliaid fferm yn ei yfed, ac y byddent yn cael eu cylchredeg i'r grŵp.

***PG Tach 04 Marc Williams i rannu ffigurau â'r Grŵp.***

## 10) Cyfarfod yr Is-grŵp Rheoleiddio

Wrth gadarnhau'r cefndir, dywedodd Spencer Conlon fod ADAS wedi cael ei gomisiynu i gwblhau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) yn achos Rheoliad Dŵr newydd arfaethedig ar gyfer 2020. Yn dilyn cyfle i randdeiliaid gyflwyno tystiolaeth ychwanegol, roedd ADAS bellach wedi diwygio'r RIA a ddaeth i law Llywodraeth Cymru yn hwyr yr wythnos flaenorol. Roedd Llywodraeth Cymru wedi bwriadu cynnal trafodaeth yng nghyfarfod y grŵp Gorchwyl a Gorffen Rheoleiddio a oedd wedi cael ei gynllunio ar gyfer y diwrnod hwnnw. Fodd bynnag, ar ôl cael gwybod na fyddai rhanddeiliad allweddol yn dod i'r cyfarfod, dim ond diweddariad rheoleiddio a fyddai'n cael ei ddarparu i'r Grŵp hwn.

Cyn bo hir, byddai Llywodraeth Cymru yn darparu cyngor i'r Gweinidog a fyddai'n cynnwys yr RIA a'r dystiolaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan randdeiliaid. Roedd trafodaethau'n parhau, a disgwylid i Uwch-swyddog yn Llywodraeth Cymru gysylltu'n fuan ag Uwch-swyddogion yn yr Undebau Ffermio. Yn dilyn y drafodaeth honno, byddai Llywodraeth Cymru wedyn yn penderfynu ynghylch cynnal rhagor o gyfarfodydd i drafod. Ar ôl i hynny ddigwydd, byddai diweddariad pellach yn cael ei roi i Is-Grŵp Amaeth Fforwm Rheoli Tir Cymru.

Cadarnhaodd Spencer Conlon nad oedd angen rhagor o gyfarfodydd ar y pryd yn achos y grŵp Rheoleiddio Gorchwyl a Gorffen. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru na fyddai'n gallu achub y blaen bryd hynny ar benderfyniad y Gweinidog, ac felly nid oedd yn gallu darparu unrhyw wybodaeth bellach i ffermwyr.

Mynegodd Denis Matheson broblem o ran y cymalau enghreifftiol diweddar a basiwyd trwy'r Senedd yn ystod mis Hydref. Cadarnhaodd Spencer Conlon y byddai Llywodraeth Cymru yn

eu hadolygu ar sail yr wybodaeth a ddarperid gan Denis Matheson, ac y byddai'n cysylltu â Denis Matheson i drafod ymhellach.

## 11) Unrhyw fater arall

Cadarnhaodd James Dowling, Llywodraeth Cymru, ei fod wedi cael rôl arall yn Llywodraeth Cymru. Llongyfarchwyd James gan y Cadeirydd ar ei swydd newydd, a diolchodd iddo am ei fewnbwn a'i gymorth gwerthfawr yn ystod y tair blynedd ddiwethaf.

**Daeth y Cyfarfod i ben.**